Senedd Cymru
Y Pwyllgor Busnes

Amserlen ar gyfer ystyried:

Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)

Hydref 2022

Cafodd Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) ei gyflwyno yn y Senedd ar 20 Medi 2022. Cytunodd y Pwyllgor Busnes, o dan Reol Sefydlog 26.9, i beidio â chyfeirio'r Bil at bwyllgor cyfrifol i graffu ar ei egwyddorion cyffredinol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Senedd ddefnyddio amserlen gyflym i graffu ar y Bil hwn ar y sail canlynol: bod angen brys gweithredu gwaharddiad yng Nghymru ar y plastigau untro sy'n cael eu taflu fel sbwriel amlaf, i gyd-fynd â gwaharddiadau cyfatebol yng ngweddill y Deyrnas Unedig, ac; oherwydd y bwriad i ddefnyddio'r Bil fel enghraifft ymarferol i gefnogi ei hachos mewn perthynas â Deddf Marchnad Fewnol y DU yn y Goruchaf Lys.

Mae'r Pwyllgor Busnes wedi ymgynghori â Phwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ynglŷn ag amserlen y Bil. Ar 15 Awst 2022, yn dilyn trafodaethau, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fil drafft a chrynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad cysylltiedig a gynhaliwyd rhwng 30 Gorffennaf a 22 Hydref 2020. Roedd hyn yn galluogi'r Pwyllgor i gynnal ei ymgynghoriad ei hun ar y Bil drafft a chynnal sesiynau tystiolaeth lafar ar y Bil fel y'i cyflwynwyd

wedi hynny, gan gynnwys sesiwn gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd.

Ar sail y gwaith craffu y mae Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith wedi llwyddo ei wneud yn yr amser a oedd ar gael iddo, ac o ystyried yr amgylchiadau penodol sy'n ymwneud â'r Bil, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar 27 Medi 2022 i beidio â chyfeirio'r Bil at Bwyllgor cyfrifol i graffu ar ei egwyddorion cyffredinol.

Yn yr un cyfarfod, cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 12 Tachwedd 2022.